PENBLWYDDI: DYDDIADAU I'W COFIO

THE ROYAL BRITISH LEGION

1

2

Photograph courtesy of the Imperial War Museum, London (Q 031488)

3

4

5

Bob blwyddyn mae'n ymddangos bod rhyw ddigwyddiad neu'i gilydd yn cael ei gofio ac mae llawer o'r rhain yn cofio brwydrau neu ryfeloedd. Eleni mae'r Lleng Brydeinig Frenhinol yn dathlu ei phen-blwydd yn 90 oed – mae'r Lleng yn sefydliad a grëwyd yn benodol i ofalu ac i gynorthwyo'r holl bobl yr effeithiodd rhyfel arnynt, cyn-filwyr o bob oedran a'u teuluoedd.

2011
90ain pen-blwydd y Lleng Brydeinig Frenhinol

Sefydlwyd y Lleng Brydeinig ym 1921 ac enillodd statws 'Brenhinol' ym 1925. Mae gan y Lleng ddau bwrpas – sicrhau bod Dydd y Cofio'n cael ei gydnabod bob blwyddyn drwy wisgo pabi a gosod torchau pabi a chodi arian drwy werthu'r pabi i helpu i gynorthwyo cyn-filwyr (yn ddynion ac yn ferched) a'u teuluoedd.

Mae'r Lleng Brydeinig Frenhinol yn gofalu am unrhyw gyn-filwyr neu bersonau sy'n gwasanaethu yn y lluoedd arfog a'u teuluoedd pan fyddant angen cymorth. Er bod gwladwriaeth les yn bodoli erbyn hyn, mae galw mawr yn dal i fod am y cymorth a roddir gan y Lleng. Gan fod y Lluoedd Arfog Prydeinig yn gysylltiedig â brwydro sy'n parhau ar hyn o bryd, bydd angen cymorth ar y dynion a'r merched fydd yn cael eu niweidio neu fydd yn dioddef o ganlyniad i'r ymladd hwn – a hynny am nifer o flynyddoedd. Mae pen-blwydd y Lleng Brydeinig Frenhinol yn 90 oed yn gyfle i gydnabod gwaith y Lleng dros y 90 mlynedd ac yn arbennig y gwaith hanfodol y mae'n parhau i'w wneud heddiw ac y bydd yn ei wneud yn y dyfodol.

2011
95ain pen-blwydd Brwydr y Somme, Y Rhyfel Byd Cyntaf (1914–1918)

Mae'n debyg mai Brwydr y Somme yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf oedd y frwydr enwocaf yn Hanes Prydain, oherwydd yma cafodd y nifer mwyaf erioed o bobl eu lladd mewn un diwrnod: cafodd Brydain 58,000 o golledion (ac roedd traean o'r rhain yn farwolaethau). Dechreuodd y frwydr ar 1af Gorffennaf 1916, a daeth i ben ar 18 Tachwedd 1916. Cafodd Prydain, yr Ymerodraeth a'r Gymanwlad fwy na 419,000 o golledion.

2012
30ain pen-blwydd Rhyfel Falkland (1982)

Ym 1982, meddiannodd yr Ariannin grŵp o Ynysoedd yn Ne Orllewin Cefnfor Iwerydd oedd yn ddibynnol ar Brydain, sef Ynysoedd Falkland. Ymatebodd Prydain drwy anfon milwyr yno i ymosod ar y goresgynwyr ac amddiffyn yr ynysoedd. Parhaodd y rhyfel am dri mis a llwyddodd Prydain i ddal ei gafael yn yr ynysoedd. Cafodd Prydain fwy na 1,000 o golledion*, a lladdwyd 258 ohonynt.

*Mae colledion yn cynnwys unrhyw rai sy'n cael eu niweidio, eu lladd, sydd ar goll neu sy'n cael eu cymryd yn garcharorion

1 Y Lleng Brydeinig Brenhinol Adran Beicwyr

2 Golygfeydd o ddifrod yn dilyn Brwydr y Somme, 1916

3 Dadorchuddio'r Gofadail, Llundain, 1920

4 Amddiffyn Ynysoedd Y Falkland, 1982

5 Bedd yr Is-Gyrnol H Jones, laddwyd yn ystod gwrthdaro'r Falkland, 1982